CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

20 Mehefin 2023, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Williams, A Williams, C McGregor, R Hughes, S Jones, E Williams, D ap Rhobert, P Ellis, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng W Williams. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16.05.23. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn (gydag un newid - mae llwybr troed 23/021/21 o Ty Croes tuag at Gefn Poeth Bach). Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Llwybrau cyhoeddus – Nid yw Llwybr troed 23/021/1 wedi cael ei dorri fel y cytunwyd. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r contractwr unwaith eto.
4.2	Arwyddion yn y gilfan ger y sgwâr – Mae'r Cynghorydd Ellis wedi siarad â'r Cyngor Sir. Maent yn cadarnhau y bydd yr arwyddion yn cyfyngu parcio i 4 awr a dim aros dros nos.
4.3	Cyflwr lonydd Bryn Gors – Llanffinan - Deallir fod y gwaith wedi ei wneud.
4.4	Carthffosiaeth Talwrn - Adroddodd y Cyng Ellis yn ôl o gyfarfod gyda Dŵr Cymru. Nid ydynt yn barod i wario mwy ac nid yw ar eu gwariant arfaethedig ar gyfer yr flynyddoedd nesaf. Nid yw Dŵr Cymru yn cydnabod bod yna broblem. Mae'r Cynghorydd Ellis yn ceisio casglu data y gall ei gyflwyno i Dŵr Cymru. Anogodd yr aelodau i gofnodi unrhyw gwynion ar wefan Dŵr Cymru. Dywedodd y Cyng E Williams nad yw'r system bwmpio yn gallu delio â nifer yr eiddo yn yr ardal. Mae hefyd wedi cynghori Dwr Cymru bod ganddyn nhw "Japanese Knotweed" yn tyfu yn yr ardal.
4.5	Mainc Mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd - Darparodd y Cyng S Jones luniau o'r safle lle bydd y fainc yn cael ei osod. Cytunwyd caniatáu cais Ms Sue Humphreys i osod mainc yn y fynwent ar yr amod ei bod yn talu'r holl gostau.
	Llofnod…….Cadeirydd 18.07.23

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	HHP/2023/119 - Cais llawn ar gyfer dymchwel rhan annedd ynghyd a addasu ac ehangu yn Drws y Coed, 2 Bodwrdin, Tregaian, Llangefni – dim sylwadau.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Mrs M Ashcroft - Mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Mrs Ashcroft yn dweud bod angen torri gwair Maes y Coed. Mae eisoes wedi cyfeirio'r mater at y contractwr ac mae bellach wedi'i dorri.
7	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Lon yr Ysgol - Yn y cyfarfod diwethaf codwyd pryderon nad oes digon o ddraenio ar ffordd yr ysgol yn Nhalwrn ar ôl clirio'r ffosydd. Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad â'r Adran Briffyrdd sy'n dweud bod pibell ddraenio wedi'i gosod
8.2	Torri gwair - Yn dilyn pryderon yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â glaswellt ddim yn cael ei dorri ar Groesffordd Talwrn, mae'r Clerc wedi siarad â'r Cyngor Sir sy'n cadarnhau nad yw pob ardal yn cael ei dorri nawr er mwyn caniatáu cynefin naturiol. Dywedodd y Cyng Ellis mai'r gobaith yw y bydd pob maes yn cael ei dorri ym mis Medi. Mynegodd y Cyng A Williams bryderon ynghylch gweledegd cyfyngedig ym Medd y Wrach. Bydd y Cyng Ellis yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir.
8.3	Arwydd Ffordd yn flachio - Cytunwyd i adael y mater hwn tan fis Medi pan gyflwynir y cyfyngiad 20 mya. Cytunwyd hefyd bod y Clerc yn cael dyfynbris ar gyfer arwydd terfyn cyflymder fflachio ar gyfer y gyffordd ar Groesffordd Talwrn (o gyfeiriad Pentraeth).
8.4	Adolygu Cynllun Hyfforddiant - Adolygwyd y Cynllun Hyfforddi a bydd aelodau yn cysylltu â'r Clerc gydag unrhyw geisiadau am hyfforddiant.
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Gor-yrru Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 18.07.23